

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Tudno

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Tudno yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae cymorth ar gyfer lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu yn amgylchedd cynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn hapus yno. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf ag oedolion a gyda'i gilydd ac yn dangos parch a chwrteisi ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn arwain at ymgysylltu cryf ym mywyd yr ysgol. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at yr ysgol ac yn mwynhau eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ffordd y mae'n rhoi amlygrwydd i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu modelau rôl cryf. Mae hyn, ynghyd â'r ethos Cymreig cryf, yn hyrwyddo'r defnydd naturiol o'r Gymraeg yn dda iawn trwy gydol y dydd. Mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu gwaith llafar yn effeithiol iawn ac yn teimlo'n falch o'u gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn hyderus.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu dilys sy'n ymestyn gwybodaeth disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu ystod o fedrau yn ystod gwersi bob dydd. Mae athrawon yn gwrando'n ofalus ar syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad systematig medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o addysgu yn bwrpasol, ac mae athrawon yn defnyddio holi'n dda i symud dysgu'r disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth yn unol ag anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer ychydig o ddisgyblion ac nid yw ansawdd adborth athrawon yn effeithio'n ddigon da ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweinyddiaeth dosturiol a meddylgar. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ac yn hyrwyddo cydweithio ymhlith staff, yn meithrin arbenigedd proffesiynol ac yn cryfhau partneriaethau â rhieni ac ysgolion lleol eraill yn llwyddiannus. Maent yn gosod nodau clir ar gyfer gwella; fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y gwahaniaeth a wna gwaith gwella i ddysgu'r disgyblion.

# Argymhellion

**A1** **Cryfhau cyfraniad yr holl arweinwyr at y prosesau hunanwerthuso a chanolbwyntio'n fwy penodol ar effaith yr addysgu ar ddysgu**

**A2** **Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion a bod adborth yn eu helpu i wella'u gwaith ymhellach**

**A3** **Datblygu'r cwricwlwm ymhellach i sicrhau bod yr ysgol yn darparu ymagwedd ysgol gyfan systematig at ddatblygu medrau disgyblion**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu ethos a diwylliant Cymreig lle gall y Gymraeg ffynnu mewn ysgol cyfrwng Saesneg, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tudno |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 189 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 19.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 22.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 8.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.